
ADRODDIAD

# BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

PLATFFORM



PLATFORM

For mental health and social change

Dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol

# ADRODDIAD BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU PLATFFORM

## TROSOLWG

**Mae'n ofynnol i bob sefydliad sydd â thros 250 o gyflogeion gyhoeddi ac adrodd ar ffigurau penodol am eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gan edrych yn benodol ar y cyflog fesul awr cyfartalog (neu gymedrig) a dderbynnir gan y ddau ryw, y cyflog canolrifol (canol) fesul awr a dderbynnir gan y ddau ryw, y bwlch cyflog bonws rhwng y rhywiau (os yw'n berthnasol) a'r cyflog fesul chwartel.**

## BETH YW'R BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU?

**Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn fesur o'r gwahaniaeth yn y cyflog cyfartalog rhwng dynion a menywod, waeth beth fo natur eu gwaith, ar draws y sefydliad cyfan. Mae hyn fel arfer yn cael ei fynegi fel canran o gyflog dynion, gyda ffigwr positif o blaid gwrywod, a ffigwr negyddol o blaid menywod.**

ER ENGHRAIFFT, OS ADRODDIR BOD BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU YN 3.54% MAE HYN YN GOLYGU, AR GYFARTALEDD, BOD DYNION YN ENNILL 3.54% YN FWY NA MENYWOD, NEU OS NODIR BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU FEL -3.54% MAE HYN YN GOLYGU BOD MENYWOD AR GYFARTALEDD YN ENNILL 3.54% YN FWY NA DYNION.

Mae gan y bwlch cyflog rhwng y rhywiau lawer o ffactorau cyfrannol a fydd yn amrywio o sefydliad i sefydliad, ar draws sectorau ac ar draws lleoliadau daearyddol.

Mae'n wahanol i gymhariaeth cyflog cyfartal, sef cymhariaeth rhwng dau berson neu grŵp o bobl sy'n cyflawni gwaith sydd yr un peth, yn debyg neu'n gyfatebol.



NID YW BODOLAETH BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU YN ARWAIN YN AWTOMATIG AT UNRHYW FATERION GWAHANIAETHU NEU GYFLOG CYFARTAL.

# BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU PLATFFORM

**Mae Platfform yn gyflogwr achrededig Cyflog Byw Gwirioneddol ac mae wedi ymrwymo i gyflog teg a chyfartal i'n pobl.**

Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n galed dros y tair blynedd diwethaf i drawsnewid ein diwylliant mewnol o 'ddigon da' i un lle rydyn ni'n arwain trwy esiampl. Mae ein gwasanaethau yn gweithio i gefnogi bodau dynol, gyda phopeth mae hynny'n ei olygu. Felly, mae ein diwylliant mewnol yn seiliedig ar yr un dull – hyblyg, dynol, a gyda mynediad at gymorth iechyd meddwl.

Pan fyddwch chi'n delio â rhywbeth mor gymhleth ag iechyd meddwl, mae cefndiroedd a phrofiadau pawb yn rhoi persbectif gwahanol. A dyna pam mae ein gwahaniaethau yn wirioneddol yn ein gwneud ni'n gryfach - a pham ei bod mor bwysig i ni ein bod ni'n croesawu pawb, a bod pob un ohonom yn gallu dod â phopeth yr ydym ni i'n gwaith.


Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r ystadegau bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer Platfform ar adeg benodol (5ed Ebrill 2024) ac mae'n seiliedig ar dâl 'cyflogeion cyflog llawn perthnasol' (gan gynnwys staff wrth gefn).


Nid yw'n cynnwys goramser, tâl sy'n ymwneud â therfynu cyflogaeth nac unrhyw fuddion anariannol eraill.

**Ar 5ed Ebrill 2024, roedd gan Platfform 315 aelod o staff, gan gynnwys staff wrth gefn.**

**Roedd 75.87% 239 yn fenywod**

**Roedd 24.13% 76 yn ddynion**




# Y BWLCH CYFLOG CYMEDRIG RHWNG Y RHYWIAU

## Y BWLCH CYFLOG CYMEDRIG RHWNG Y RHYWIAU

**Cyfrifir y ffigur cymedrig (neu gyfartalog) drwy gymharu cyfradd gyfartalog cyflog fesul awr dynion a menywod o fewn sefydliad.**

Y gyfradd gymedrig fesul awr ar gyfer aelodau staff gwrywaidd yw £14.24, a’r gyfradd gymedrig fesul awr ar gyfer aelodau staff benywaidd yw £13.69.

Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau Platfform yw: 3.86%




Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau yw: 3.86%

## Y BWLCH CYFLOG CANOLRIFOL RHWNG Y RHYWIAU


**Cyfrifir y ffigur canolrifol drwy gymharu’r gyfradd ganolrifol neu ganol fesul awr o gyflog ar gyfer menywod a dynion o fewn sefydliad.**

Y gyfradd ganolrifol fesul awr ar gyfer aelodau staff gwrywaidd yw £12, a’r gyfradd ganolrifol fesul awr ar gyfer aelodau staff benywaidd yw £12.25.

Bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau Platfform yw: -2.08%

Ar y ddau gyfrifiad, mae ffigur cadarnhaol yn dangos bod dynion yn derbyn tâl uwch na menywod, mae ffigur minws yn dangos bod menywod yn derbyn tâl uwch na dynion yn seiliedig ar gyfradd tâl fesul awr.

Dengys ein cymhariaeth, o ran y gyfradd gymedrig neu ganol fesul awr, fod 2.08% o fenywod ar gyfartaledd yn cael mwy o dâl na dynion yn Platfform.





Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yw: -2.08%

## BWLCH CYFLOG BONWS


**Nid oes bwlch cyflog bonws oherwydd natur ariannu’r gwaith yn Platfform, ni chynigir taliadau bonws i’n staff.**

Fodd bynnag, rydym ar hyn o bryd yn adolygu ein cynnig o ran gwobrwyo a chydnabyddiaeth i staff Platfform, gyda’r bwriad o gyflwyno strategaeth wobrwyo a chydnabyddiaeth wedi’i diweddaru yn y flwyddyn ariannol newydd (2025/26).




# CHWARTELAU TÂL:

**Yng nghyd-destun adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, mae'r pedwar chwartel canlynol yn rhannu gweithlu Platfform yn bedair rhan gyfartal yn seiliedig ar gyflog fesul awr, o'r rhai sy'n ennill isaf i'r uchaf. Mae hyn yn helpu i ddangos sut mae cyflog yn cael ei ddosbarthu ar draws gwahanol lefelau o'r sefydliad.**




**Chwartel Isaf**

---





**Chwartel Canol Isaf**


# CHWARTELAU TÂL:


**Yng nghyd-destun adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, mae'r pedwar chwartel canlynol yn rhannu gweithlu Platfform yn bedair rhan gyfartal yn seiliedig ar gyflog fesul awr, o'r rhai sy'n ennill isaf i'r uchaf. Mae hyn yn helpu i ddangos sut mae cyflog yn cael ei ddosbarthu ar draws gwahanol lefelau o'r sefydliad.**




## Chwartel Canol Uchaf




## Chwartel Uchaf

# BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

## BETH SY'N ACHOSI EIN BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

**Ar draws pob chwartel, mae'n amlwg bod ein gweithlu'n fenywod yn bennaf, gyda nifer o ffactorau cyfrannol fel a ganlyn:**

- **Natur ein gwaith (cymorth, pobl ifanc a chwnsela)**
- **Ein dull gweithio hyblyg a gwerthfawrogiad o gydbwysedd bywyd a gwaith**
- **Ein polisïau absenoldeb sy'n cefnogi teuluoedd (hy tâl mamolaeth uwch, absenoldeb brys/ gofalwyr â thâl)**
- **Ein lwfans gwyliau uwch na'r cyfartaledd**

Mae hyn hefyd yn dod i'r casgliad bod cyfle cyfartal i'r ddau ryw o ran symud ymlaen i rolau lefel uwch a recriwtio i rolau lefel uwch gan fod niferoedd gweithwyr benywaidd hyd yn oed o fewn y chwartel uchaf yn uchel.

INVESTORS IN PEOPLE | Gold

diverse cymru
Promoting equality for all
Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

## MYND I'R AFAEL Â'N BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

**Rydym yn falch iawn o weld bod Platfform yn un o'r ychydig gyflogwyr sydd â bwlch cyflog rhwng y rhywiau o dan 4%.**

Ers mis Ebrill 2021 rydym wedi talu ein staff yn unol â'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac wedi cynnal y dull hwn ar gyfer y cyfnod adrodd hwn.

Rydym yn gwneud ein gorau i fod yn gyflogwr teg, gan ymdrechu'n barhaus i lunio a gwella ein harferion gwaith, fel y dangoswyd yn ddiweddar wrth i ni gyflawni achrediad Aur ar gyfer Buddsoddwyr mewn Pobl yn ogystal ag achrediad Arian yn fframwaith Diverse Cymru.

Fodd bynnag, ni fyddwn yn dod yn hunanfodlon (neu'n gorffwys ar ein rhwyfau) a byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella prosesau, polisïau ac arferion i wella a hyrwyddo cydraddoldeb, dathlu amrywiaeth ac annog ymdeimlad o berthyn yn Platfform. Bydd y rhain yn cynnwys:

- **Parhau i adolygu ein dull o recriwtio a dethol gan sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i ddynion a menywod ymgeisio am rolau ar draws pob chwartel o fewn Platfform.**
- **Parhau i ddatblygu ein polisïau cyfeillgar i deuluoedd sy'n rhoi'r cyfle i ddynion a menywod weithio'n hyblyg er mwyn cynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith a rheoli ymrwymiadau teuluol/personol.**
- **Parhau â'n hymdrechion i greu gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn gweithio ynddynt**

# DATGANIAD ATEGOL

**Ar ôl dilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth a'r canllawiau ategol a gyhoeddwyd gan ACAS a'r CIPD, gallwn gadarnhau bod y wybodaeth bwlch cyflog rhwng y rhywiau a gyhoeddwyd gan Platfform yn gywir.**

Ewan Hilton, Prif Weithredwr
Ebrill 2025

Corrina Fiddler, Pennaeth Pobl
Ebrill 2025

ADRODDIAD

# BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

PLATFFORM

PLATFFORM

For mental health and social change

Dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol